# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad: Ar-lein

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2024

Amser: 09.01 - 09.20

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Russell George AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr aelodau i’r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Lesley Griffiths a Darren Millar. Roedd Jane Hutt a Russell George yn bresennol yn y cyfarfod fel dirprwyon.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i’r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Cynnig i gymeradwyo enwebu Cwnsler Cyffredinol (5 mun)
- Enwebu cadeiryddion pwyllgorau (5 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Cyflawni blaenoriaethau Cymru (45 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 21 Mai*

Ar ôl i gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ymddiswyddo wedi iddynt gael eu penodi i rolau Gweinidogol, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai cadeiryddion y pwyllgorau hynny barhau i gael eu dyrannu i grŵp Llafur. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai enwebiadau'n cael eu gwahodd ar ôl y Cwestiynau i'r Prif Weinidog heddiw, gyda chanlyniad unrhyw bleidleisiau sydd eu hangen yn cael eu cyhoeddi cyn y Cyfnod Pleidleisio.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.20pm

**Dydd Mercher**

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am yr ychwanegiadau a ganlyn:

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ~~Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol~~ (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ~~Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd~~ (45 munud)
- Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)
- Cynnig i benodi Aelod i Gomisiwn y Senedd (5 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynnig i benodi Jane Hutt fel aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Lesley Griffiths.

Yn dilyn ei ymddiswyddiad, cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dylid gwahodd y grŵp Llafur i gynnig Aelod yn lle Ken Skates ar Gomisiwn y Senedd ac i gynnig gael ei gyflwyno i'w ystyried ddydd Mercher.

Gwnaeth y Llywydd atgoffa Rheolwyr Busnes am yr amseriadau ar gyfer cyfraniadau siarad yn ystod dadleuon 30 munud y gwrthbleidiau sydd wedi'u trefnu ar gyfer dydd Mercher.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 23 Ebrill 2024**

- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg: Blaenoriaethau economaidd (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth: Blaenoriaethau trafnidiaeth (30 munud)
- ~~Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024 (15 munud)~~ – *gohiriwyd*
- ~~Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023 (15 munud)~~ – *gohiriwyd*

**Dydd Mercher 24 Ebrill 2024**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth ~~Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip~~ (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ~~Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad~~ (45 munud)

**Dydd Mercher 1 Mai 2024**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ~~Weinidog yr Economi~~ (45 munud)

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ~~Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol~~ (45 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 24 Ebrill 2024 -**

- Dadl fer: ~~Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)~~ <u>Peter Fox AS (Mynwy)</u>(30 munud)

**Dydd Mercher 8 Mai 2024 -**

- <u>Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd (60 munud)</u>
- <u>Dadl ar Ddeiseb P-06-1392: Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (30 munud)</u>
- <u>Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)</u>
- <u>Dadl fer: Peredur Owen Griffiths AS (Dwyrain De Cymru) (30 munud)</u>

### 3.4 Cynigion deddfwriaethol yr Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i amserlennu’r cynnig canlynol i’w drafod ar 24 Ebrill:

**Janet Finch-Saunders**

**NNDM8504**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai’n gwneud darpariaethau ar gyfer targedau i atgyfnerthu diogeledd bwyd yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai creu dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i bennu targedau i wella diogeledd bwyd yng Nghymru.

### 3.5 Amserlen ar gyfer Cwestiynau Llafar

Nododd y Pwyllgor Busnes yr amserlen newydd ar gyfer cwestiynau llafar.

Ymgynghorodd y Llywydd â'r Rheolwyr Busnes ynghylch a ddylid galw ar lefarwyr i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Darpar Gwnsler Cyffredinol gan ystyried cyfrifoldebau newydd y gweinidogion. Yng ngoleuni'r safbwyntiau a fynegwyd, nododd y Llywydd y byddai'n parhau i alw ar lefarwyr i ofyn cwestiynau heb rybudd ac i barhau i adolygu'r trefniadau.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cafodd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol a chytunodd i wneud yr hyn a ganlyn:

- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a osodwyd ar 2 Ebrill at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar gyfer craffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 7 Mehefin 2024.

- cyfeirio’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig a osodwyd ar 5 Ebrill i’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, gyda dyddiad terfynol o 22 Ebrill 2024 i gyflwyno adroddiad.

- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) tan 10 Mai.

Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd y cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion ei osod ar 15 Ebrill 2024, ar ôl cael ei gyfeirio yn ei gyfarfod blaenorol at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad cau o 29 Ebrill 2024 ar gyfer cyflwyno adroddiad.

### 4.2 Papur i'w nodi - Llythyr gan y Prif Weinidog ynghylch yr Aelodau sy'n gyfrifol am Filiau'r Llywodraeth

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## 5 Gwaith Gweithdrefnol

### 5.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen waith weithdrefnol

Nododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar amserlennu arfaethedig ei waith gweithdrefnol.